**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**22/11/24**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Linda Roberts (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam) a Gary Williams (Cyngor Sir Ddinbych) ac Iwan Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion Statudol**
Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) ac Iwan Evans (Swyddog Monitro).

**Swyddogion eraill yn bresennol**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Iain Taylor (Ymgynghorwr AMION Consulting), Claire Incledon (Cyfreithiwr), Jack Latkovic (Swyddog Democratiaeth Cydbwyllgor Corfforedig) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd)
- Y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Môn) gyda'r Cynghorydd Robin Williams yn dirprwyo
- Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam) gyda Linda Roberts yn dirprwyo
- Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) gyda Gary Williams yn dirprwyo
- David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eitem 5: Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC am ran olaf o'r adroddiad oedd yn ymwneud ag ymestyn ei secondiad yn y rôl. Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y rhan yma o'r drafodaeth.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2024 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD: SWYDDOGAETHAU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU – TROSGLWYDDO I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC a Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn y diweddariad cynnydd ar y gwaith i sefydlu CBC y Gogledd, gan gynnwys trosglwyddo'r Cynllun Twf a symud ymlaen ar dasgau sy'n ofynnol i gyflawni swyddogaethau statudol y CBC.**

**Cytuno i dderbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhoi diweddariad pellach ar gynnydd y trosglwyddo gan gyfeirio at y Cynllun Datblygu Strategol.**

**Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i gytuno ar raglen a dyddiad trosglwyddo ddiwygiedig gyda'r Awdurdodau Lleol a phartneriaid Addysg Uwch ac Addysg Bellach o fewn y dyddiad targed o 1 Ebrill, 2025.**

**Cymeradwyo estyniad o’r trefniant dros dro i Gyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ymgymryd â rôl Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar sail dros dro am ddau ddiwrnod yr wythnos hyd at 31 Mawrth, 2025 neu'r dyddiad trosglwyddo, yn dibynnu p'un fydd gyntaf.**

**TRAFODAETH**

Darparwyd crynodeb o’r adroddiad oedd yn cyflwyno diweddariad pellach ar y cynnydd i sefydlu’r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn ceisio cymeradwyaeth i ymestyn y trefniant i’r Cyfarwyddwr Portffolio ymgymryd â rôl y Prif weithredwr Dros Dro am ddau ddiwrnod yr wythnos tan 31 Mawrth 2025 neu’r dyddiad trosglwyddo.

Atgoffwyd y Cyd-bwyllgor o’r trefniadau presennol gan amlygu fod swyddogaethau a threfniadau’r Bwrdd Uchelgais wedi eu nodi yn GA2 sy’n cynnwys trefniadau llywodraethu a chefnogaeth ariannol i’r Cynllun Twf. Eglurwyd y bydd y Cynllun Twf a’r trefniadau ariannol yn trosglwyddo i’r Cyd-bywllgor Corfforedig a phwysleisiwyd y pwysigrwydd o gydweithio rhanbarthol er mwyn i bartneriaid gytuno ar drefniadau ar gyfer gweithredu swyddogaethau rhanbarthol fel rhan o sefydlu’r CBC. Cadarnhawyd y bydd model trosglwyddo benodol yn cael ei gytuno fel rhan o’r camau nesaf gyda phartneriaid.

Manylwyd ar y materion cyfreithiol allweddol sy’n cael eu datblygu er mwyn gweithredu’r trosglwyddiad fel y nodwyd yn rhan 3.3 o’r adroddiad a cyfeiriwyd at y meysydd ffocws allweddol.

Esboniwyd pam nad oedd y dyddiad targed dros dro o’r 1af o Dachwedd a osodwyd ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o’r Bwrdd Uchelgais i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gyraeddadwy gan amlygu’r penderfyniadau allweddol sydd angen eu gwneud cyn trosglwyddo. Ymhelaethwyd ar y camau nesaf o ymdrin â threfniadau cyfreithiol, ariannol a llywodraethant i allu trosglwyddo yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at ran 4.6 i 4.8 o’r adroddiad oedd yn crynhoi’r amserlen ddiwygiedig sydd yn cynnig trosglwyddo’r Cynllun Twf erbyn y 1af o Ebrill, 2025 fan bellaf.

Diolchodd y Cadeirydd i Brif Weithredwr dros dro’r CBC am yr adroddiad cynhwysfawr a gofynnwyd a oes digon o adnoddau ar gael i gyflawni’r gofynion fel sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad erbyn yr amserlen ddiwygiedig. Mewn ymateb nodwyd nad oedd yr holl adnoddau ar gael a bod bylchau yn bodoli, yn benodol yn ymwneud â rhai o’r dyletswyddau

strategol; nodwyd nad oedd adnodd wedi ei adnabod ar gyfer symud y gwaith yn ei flaen. Cyfeiriwyd at yr adnoddau sydd wedi eu hadnabod hyd yma oedd yn cynnwys Rheolwr Rhaglen dros dro a Chyfreithiwr i roi cymorth cyfreithiol ychwanegol.

Ychwanegwyd bod y CBC wedi cymeradwyo model adnoddau yn flaenorol ond ni ellir recriwtio na chael yr adnoddau mewn lle nes bod y Cynllun Twf a'i bobl wedi trosglwyddo i'r CBC. Nodwyd bod cynllun pontio manwl a chlir wedi ei ddatblygu ar gyfer trosglwyddo'r Cynllun Twf ond bod pa mor gyflym y gall y cynllun hwnnw gael ei roi ar waith yn ddibynnol ar dderbyn y cymeradwyaethau a nodwyd yn yr adroddiad. Credwyd bod y dyddiad diwygiedig o'r 1af o Ebrill 2025 yn fwy cyraeddadwy a bod amser digonol cyn hynny i gael popeth mewn lle i drosglwyddo.

Mynegwyd barn na ellir parhau i roi estyniad ar estyniad a gofynnwyd a oes angen ystyried prynu adnoddau ychwanegol er mwyn symud y cynlluniau yn eu blaen a chefnog Prif Weithredwr dros dro'r CBC i gwrdd â'r terfynau amser.

Mewn ymateb, mynegwyd o ran y Cynllun Trafnidiaeth bod hynny eisoes wedi digwydd a bod cefnogaeth ymgynghorwyr ARUP wedi ei sicrhau ar gyfer datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth rhanbarthol a bellach bod yr amserlen yn cael ei chwrdd. Nodwyd bod y cymorth sy'n cael ei dderbyn gan ARUP yn help i yrru'r momentwm yn ei flaen. Credwyd bod cyfle i wneud yr un peth ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol a bod hynny'n rhywbeth y bydd y CBC yn mynd allan i dendro arno. Ychwanegwyd ei bod yn angenrheidiol gweithio gyda rhywun sydd â chefndir cynllunio fydd yn gallu gyrru'r rhaglen yn ei blaen. Nodwyd y bydd asiantaethau neu ymgynghorwyr yn cael eu cysidro ond teimlwyd y byddai'n fuddiol gweithio efo cleientiaid mewnol yn y rhanbarth, er enghraifft pe bai capasiti o fewn Cynghorau'r Gogledd. Cadarnhawyd bod secondiadau yn cael eu hystyried a'u croesawu. Cynigiodd Prif Weithredwr dros dro'r CBC gyflwyno adroddiad yn y cyfarfod nesaf yn amlinellu'r uchod.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cwrdd â'r dyddiad trosglwyddo diwygiedig o Ebrill y 1af gan gydnabod bod materion cymhleth sydd rhaid ymdrin â hwy. Cytunwyd i ofyn am adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhoi diweddariad pellach ar gynnydd y trosglwyddo gan gyfeirio at y Cynllun Datblygu Strategol.

Gadawodd Brif Weithredwr Dros Dro'r CBC y cyfarfod a thrafodwyd y penderfyniad a geisir yn rhan 2.3 o'r adroddiad. Credwyd bod y cynnig yma yn un teg ac yn adnabod y ffordd ymlaen fwyaf pragmatig. Gwnaethpwyd sylw bod pryderon am yr oedi sydd wedi bod a phwysleisiwyd pwysigrwydd ymdrechu i gwrdd â'r terfynau amser sy'n bodoli. Gofynnwyd i bawb ymdrechu i gwrdd â'r terfyn amser newydd.

Awgrymwyd derbyn adroddiad cynnydd yn fisol er mwyn derbyn diweddariad o'r cynnydd ac i sicrhau fod y gwaith ar y trywydd iawn. Cytunwyd i ddirprwyo hynny i'r Cadeirydd. Nododd y Cadeirydd y bydd yn trafod efo Prif Weithredwr dros dro'r CBC er mwyn iddo dderbyn yr adroddiad cynnydd yna bydd yn ei rannu gyda gweddill y Cyd-bwyllgor.

## 6. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC.

**PENDERFYNWYD**
**Adolygu a chymeradwyo'r Safleoedd Treth a adnabuwyd (Porth Glannau Dyfrdwy, Warren Hall a Stad Ddiwydiannol Wrecsam) ac Ardaloedd Ardrethi a Gedwir (Porth Glannau Dyfrdwy a Stad Ddiwydiannol Wrecsam).**

**Adolygu a chymeradwyo'r Model Llywodraethu gyffredin arfaethedig.**

**Adolygu a chymeradwyo Themâu'r Parth Buddsoddi (Arloesi, Sgiliau a Thrafnidiaeth) a'r ymyriadau lefel uchel, a fydd yn cael eu mireinio fel rhan o Borth 4 (Ymyriadau) ac yn ystyried cynnwys 'Cymorth Busnes' fel y bedwaredd thema, sy'n ymdrin â'r bwriad i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn busnesau gweithgynhyrchu uwch gyda chyngor a chyllid grant.**

**TRAFODAETH**

Nodwyd bod yr adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i sicrhau dynodiad Parth Buddsoddi newydd yn Sir y Fflint a Wrecsam fydd yn canolbwyntio ar Weithgynhyrchu Uwch.

Croesawyd Iain Taylor, Ymgynghorwr AMION Consulting i'r cyfarfod gan nodi bod Iain yn gweithio ar ddatblygu'r cynnig ar gyfer y parth buddsoddi. Ychwanegwyd bod gan Iain brofiad diweddar a perthnasol iawn o arwain rhanbarth dinas Lerpwl yn llwyddiannus i gyflawni eu parth buddsoddi sy'n seiliedig ar wyddorau bywyd a bod y cysylltiadau sydd gan Iain wedi bod yn amhrisiadwy i'r CBC i'w helpu i ddatblygu cynnig cadarn.

Ymhelaethodd yr Ymgynghorwr AMION Consulting ar y cynnydd da sy'n cael ei wneud ar ddatblygiad y cynnig a'u bod wedi dechau cadarnhau'r sail ar gyfer pam eu bod yn meddwl y gall yr ymyriadau hyn arwain at newid sylweddol yn nhwf y sector weithgynhyrchu. Credwyd y bydd hyn yn arwain at allu cyflogi tua 6,000 yn fwy o bobl erbyn diwedd y rhaglen.

Cyfeiriwyd at y Safleoedd Treth a adnabuwyd sef Porth Glannau Dyfrdwy, Warren Hall a Stad Ddiwydiannol Wrecsam gan gyfeirio at fuddion y safleoedd hyn a'r awydd i symud ymlaen efo'r safleoedd ar ôl derbyn cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor.

Amlinellwyd y Strwythur Llywodraeth arfaethedig fel sydd wedi ei nodi yn rhan 7.9 o'r adroddiad gan fanylu ar y bartneriaeth rhwng y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r ddau Gyngor sy'n hanfodol i'r strwythur yn ogystal â gwaith yr is-bwyllgor Lles Economaidd. Cyfeiriwyd at swyddogaethau'r Gweithgor Parth Buddsoddi Sir Fflint a Wrecsam yn ogystal â Bwrdd Cynghori Cysgodol y Parth Buddsoddi.

Manylwyd ar y Themâu Craidd fel sydd wedi eu nodi yn rhan 8.1 o'r adroddiad gan adrodd y bydd y Parth Buddsoddi yn clystyru buddsoddiad ar draws tair thema graidd sef Sgiliau, Arloesedd a Thrafnidiaeth. Cynigir datblygu pedwaredd thema sef Cymorth Busnes i ddarparu sylfaen thematig ar gyfer cyngor a chymorth grant i gyd-fuddsoddi mewn busnesau gweithgynhyrchu uwch yn Sir y Fflint a Wrecsam.

Diolchwyd i'r Ymgynghorwr AMION Consulting am y cyflwyniad ac i Brif Weithredwr dros dro'r CBC am yr adroddiad. Holwyd ynghylch rhan 10.3 o'r adroddiad, y Dyraniadau Ymyriadau, gan ofyn a yw'r ffigyrau a'r canrannau sydd wedi eu nodi yn y tabl yn gywir o ran y cydbwysedd ac os bydd hyblygrwydd yn y dyfodol petai cyfle arall yn amlygu ei hun. Cadarnhawyd bod y rhaglenni fwyaf effeithiol a cyraeddadwy wedi eu darganfod a bob blwyddyn bydd y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo Cynllun Cyflawni blynyddol. Nodwyd y bydd modd edrych ar gydbwysedd yr ymyriadau bryd hynny. Ychwanegwyd y bydd gan y Cyd-bwyllgor awdurdod i weithio drwy'r rhaglen ac o ganlyniad yr hyblygrwydd drwy gydol y rhaglen i sicrhau bod yr ymyriadau yn cael yr effaith fwyaf yn Sir y Fflint a Wrecsam.

Mynegwyd balchder o weld safle Warren Hall yn yr adroddiad ac ymfalchïwyd bod rhywbeth bellach yn cael ei wneud yma. Mynegwyd diolchiadau i'r Ymgynghorwr AMION Consulting am ei waith ac i Brif Weithredwr dros dro'r CBC am y cyd-weithio yn ogystal â'r ddau Awdurdod Lleol. Cydnabuwyd bod y gwaith yn symud yn ei falen yn gyflym.

Mynegwyd bod y rhanbarth wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn yr arian hwn a chredwyd ei bod yn bwysig symud ar gyflymder. Amlygwyd y pwysigrwydd o osod seiliau a chael popeth yn ei le er mwyn symud ymlaen i gyflawni ar gyfer Sir Fflint a Wrecsam yn ogystal â gweddill Gogledd Cymru gan y bydd y rhanbarth i gyd yn ffynnu.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 14:30.

___________________________________

(Cadeirydd)